Cyngor Fferyllol Cyffredinol

# Ymgynghoriad ar ein dull rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig

Mai 2018



Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a’r brandio) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â’i fod wedi ei atgynhyrchu’n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydych wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gopi o’r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2018.

# Cynnwys

Cynnwys .................... 4

Ynghylch y CFfC .................... Error ! Bookmark not defined.

Rhagair .................... 6

Trosolwg .................... 7

Y broses ymgynghori .................... 8

Cefndir .................... 9

Ein hagwedd strategol at reoleiddio fferyllfeydd cofrestredig .................... 11

Sut rydyn ni'n rheoleiddio fferyllfeydd .................... 12

Ein cynigion .................... 13

Newidiadau i'n pwerau gorfodi .................... 26

Ein gwaith yn y dyfodol .................... 27

Ymateb i'r ymgynghoriad .................... Error ! Bookmark not defined.

Monitro cydraddoldeb .................... Error ! Bookmark not defined.

Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad wedi eu hel at ei gilydd .................... 44

# Ynghylch y CFfC

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a lleoliadau fferyllol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ein gwaith yw gwarchod, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd drwy gynnal safonau a ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth.

Mae ein prif waith yn cynnwys:

- gosod safonau addysg a hyfforddiant fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol, a chymeradwyo ac achredu eu cymwysterau a hyfforddiant
- cynnal cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd
- gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd gydol eu gyrfa
- ymchwilio i ofidiau nad yw gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cyrraedd ein safonau, a gweithredu er mwyn cyfyngu ar eu gallu i ymarfer pan fo angen diogelu cleifion a'r cyhoedd
- gosod safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion
- arolygu fferyllfeydd cofrestredig i gadarnhau eu bod yn cyrraedd ein safonau

# Rhagair

Mae gennym rôl bwysig i'w chwarae yn y gwaith o roi sicrwydd i bobl bod y gwasanaethau fferyllol y maen nhw a'u teuluoedd yn eu defnyddio yn ddiogel ac yn effeithiol. Rydym hefyd am yrru gwelliant yn ansawdd y gofal y mae pobl yn ei dderbyn wrth ddefnyddio gwasanaethau fferyllol.

Dros y mum mlynedd ddiwethaf rydym wedi cyflwyno gwelliannau mawr i'r ffordd yr ydym yn rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig. Rydym wedi clywed bod y newidiadau a wnaed gennym wedi eu croesawu a'u bod yn gweithio'n dda. Ond rydym hefyd wedi clywed bod cyfleoedd i ddatblygu ein dull ymhellach a chynyddu'n gallu i gyflawni ein dau brif amcan, sef sicrwydd a gwelliant.

All ein dull rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig ddim aros yn ei unfan. Rhaid i ni barhau i ddatblygu'r dulliau rheoleiddio yn sgil newidiadau sy'n digwydd i'r ffordd y darperir gwasanaethau fferyllol. Rydym yn gweld modelau gwasanaeth newydd yn cael eu cyflwyno'n amlach, a defnydd cynyddol ar dechnoleg, a dydyn ni ddim yn rhagweld y bydd newidiadau o fewn y maes fferylliaeth yn arafu yn y dyfodol.

Mae'n glir nad yw dull 'cyffredin i bawb' o ran rheoleiddio ac arolygu fferyllfeydd yn addas at y dyfodol. Ein bwriad yw gwneud ein dull yn fwy hyblyg, bywiog ac ymatebol.

Rydym yn cynnig cyflwyno mathau newydd o arolygiadau a defnyddio gwybodaeth i dargedu ein hadnoddau'n fwy effeithiol i'n helpu i gyflawni hyn.

Y newid mwyaf arwyddocaol a gynigiwn yn yr ymgynghoriad hwn yw ein bod yn dechrau cyhoeddi adroddiadau arolygu. Mae cyhoeddi, yn ein barn ni, yn newid sylweddol. Bydd yn ein galluogi i roi mwy o sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd, ac i'r sawl sy'n gweithio ym meysydd fferylliaeth ac iechyd, bod fferyllfeydd yn cyrraedd safonau sy'n sicrhau dod gwasanaethau a ddarperir yn ddiogel ac effeithiol. Bydd hefyd yn rhoi pwyslais ar ganlyniadau arolygiadau, gan rannu enghreifftiau o arfer dda y gall pawb sy'n gweithio ym maes fferylliaeth eu defnyddio i ddysgu a gwella.

Rydym am glywed a ydych o'r farn y bydd ein cynigion yn cyflawni'r amcanion a eglurir yn y ddogfen hon a'r effaith y byddan nhw'n eu cael ar berchnogion fferyllfeydd, y tîm fferyllol, ac yn anad neb, y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol.

**Nigel Clarke**
Cadeirydd



**Duncan Rudkin**
Prif Weithredwr



# Trosolwg

**Rydym yn ymgynghori tan 9 Awst 2018 ar ddatblygu ein dull rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig.**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar ein cynigion i ddatblygu ein hagwedd tuag at reoleiddio fferyllfeydd cofrestredig ymhellach.

Rydym yn cynnig y newidiadau allweddol canlynol:

1. **Cyflwyno mathau newydd o arolygiadau**

   Rydym yn bwriadau symud at fodel newydd fydd yn cynnwys tri math o arolygiad: arolygiadau arferol, arolygiadau wedi eu harwain gan wybodaeth ac arolygiadau thematig. Bydd hyn yn ein helpu i fod yn fwy ymatebol i'r wybodaeth sydd gennym, gwybodaeth newydd a ddaw i'r fei a materion sy'n codi o fewn y maes fferylliaeth.

2. **Symud tuag at arolygiadau heb rybudd**

   Rydym yn cynnig y bydd arolygiadau yn cael eu cynnal, fel arfer, heb rybudd yn y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod canlyniadau arolygiadau yn adlewyrchu a ydy fferyllfeydd yn cyrraedd y safonau bob dydd.

3. **Newid canlyniadau arolygiadau**

   Rydym yn cynnig newid ein model presennol o ddisgrifio canlyniadau arolygiadau. Byddai dau ganlyniad posibl i arolwg ('safonau wedi eu cyrraedd' neu 'safonau i gyd heb eu cyrraedd'), a phedwar canfyddiad posibl ar y brif lefel ('safonau i gyd heb eu cyrraedd', 'safonau wedi eu cyrraedd', 'arfer dda' ac 'ymarfer ragorol').

4. **Gofyn bod pob safon wedi ei chyrraedd er mwyn derbyn canlyniad 'safonau wedi eu cyrraedd' cyflawn**

   Byddai canfod bod unrhyw safon neu safonau heb eu cyrraedd yn arwain at ganlyniad 'safonau heb eu cyrraedd' cyffredinol.

5. **Cyhoeddi adroddiadau arolygu**

   Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiadau arolygu, a chynlluniau gwella pan yn berthnasol, ar wefan newydd. Bydd yn cael ei chynllunio i sicrhau bod gwybodaeth yn hawdd ei chwilio a'i dehongli.

6. **Rhannu enghreifftiau o arferion nodedig**

   Byddwn yn cyhoeddi enghreifftiau o arferion nodedig y down ar eu traws wrth adolygu ar 'hyb gwybodaeth' yn y wefan newydd. Bydd hyn yn annog dysgu a gwelliant parhaus mewn fferylliaeth.

Rydym hefyd am glywed eich barn ar effaith ein cynigion ar gleifion a'r cyhoedd, perchnogion fferyllfeydd a'r tîm fferyllol ehangach.

Croesawn ymatebion gan unrhyw un â diddordeb mewn rheoleiddio fferyllfeydd, ond mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan gleifion a'r cyhoedd, perchnogion fferyllfeydd, aelodau'r tîm fferyllol, ac unigolion a sefydliadau sy'n gweithio yn y sectorau fferylliaeth ac iechyd ehangach.

# Y broses ymgynghori

## Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn mewn nifer o ffyrdd. Gallwch gwblhau'r holiadur ar ddiwedd y ddogfen hon neu fynd i **www.pharmacyregulation.org/ registered-pharmacies** a chwblhau'r fersiwn ar-lein yno.

Os yn cwblhau'r holiadur yn y ddogfen hon, e-bostiwch ef i:

**consultations@pharmacyregulation.org** gydag 'Ymgynghoriad fferyllfeydd cofrestredig' yn bennawd iddo

neu ei yrru drwy'r post i:

**Ymateb i'r ymgynghoriad ar fferyllfeydd cofrestredig**

**Y Tîm Llywodraethiant**
**Cyngor Fferyllol Cyffredinol**
**25 Canada Square**
**Llundain E14 5LQ**

## Sylwadau ar y broses ymgynghori

Os oes gennych bryderon neu sylwadau am y broses ymgynghori ei hun, e-bostiwch nhw i:

**feedback@pharmacyregulation.org**

neu eu hanfon drwy'r post i:

**Y Tîm Llywodraethiant**
**Cyngor Fferyllol Cyffredinol**
**25 Canada Square**
**Llundain E14 5LQ**

Peidiwch ag anfon ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad hwn os gwelwch yn dda.

## Ein hadroddiad ar yr ymgynghoriad hwn

Wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion sydd wedi dod i law. Bydd y cyngor yn derbyn yr adroddiad dadansoddi mewn cyfarfod yn ystod ail hanner 2018. Bydd yn ystyried yr adborth wrth benderfynu ar sut i ddatblygu ein dull rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig, a phryd i weithredu'r dull newydd. Byddwn hefyd yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ac esboniad o'r penderfyniadau a wnaed ar ein gwefan.

# Cefndir

Yn 2012, cyhoeddom **weledigaeth newydd ar gyfer rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig yn ein hymgynghoriad *Moderneiddio rheoleiddio fferyllol***. Ein huchelgais oedd gweld rheoleiddio fferyllol yn symud y tu hwnt i ffocws ar gydymffurfio gyda'r gyfraith, rhestrau gwirio a gweithdrefnau safonol. Ein nod oedd datblygu safonau newydd y byddai'n rhaid i bob fferyllfa wedi ei chofrestru gyda'r CFfC eu cyrraedd bob dydd. Diben y safonau hyn oedd creu a chynnal yr amgylchedd cywir – yn sefydliadol ac yn ffisegol – ar gyfer ymarfer fferyllol diogel ac effeithiol.

Wedi cyflwyno'r safonau hyn, oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau, datblygom a gweithredom ddull arolygu newydd yn 2013. Roedd hyn yn newid mawr i'r dull 'ticio blychau' blaenorol, gyda'i ffocws cyfyng ar reolau, reoliadau a phrosesau. Ers hynny, mae ein harolygiadau wedi eu seilio ar ddull 'dangos a dweud'. Mae ein harolygwyr yn edrych ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ac yn cynnwys y tîm fferyllol cyfan i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r safonau a bod eu dulliau gwaith yn effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir ac ar y bobl sy'n defnyddio ac yn d erbyn gwasanaethau fferyllol.

Mae arolygwyr yn paratoi adroddiadau ar gyfer perchnogion fferyllfeydd a goruchwylwyr yn nodi barn y CFfC ar y graddau y mae eu fferyllfeydd yn cyrraedd y safonau.

Os bydd un neu ragor o'r safonau heb eu cyrraedd rhaid i'r fferyllfa ddatblygu cynllun gwella, ac rydym yn cadw cysylltiad gyda'r fferyllfa i sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gweithredu o fewn yr amser a ganiateir iddynt gennym.

## Gwerthuso ein dull

Yn Chwefror 2015, cyhoeddom **bapur diweddaru *Moderneiddio rheoleiddio fferyllol: o'r prototeip i weithredu***. Roedd hwn yn esbonio'r cynnydd oedd wedi ei wneud tuag at foderneiddio rheoleiddio fferyllol, yn cynnwys y dull arolygu newydd. Roedd hefyd yn sôn am y meysydd yr oeddem yn bwriadau addasu a newid ein dull ynddynt yn y dyfodol, yn cynnwys newid y ffordd yr oedd arolygiadau yn graddio fferyllfeydd. Roedd y papur yn ein hymrwymo i gynnal ymgynghoriad ar y newidiadau maes o law, wedi i newidiadau i'r gyfraith gael eu cyflwyno (y disgwyliwn eu gweld yn dod i rym cyn bo hir).

Fe gomisiynom hefyd yn 2015 **werthusiad allanol, gan ICF International**, ar ein dull rheoleiddio fferyllfeydd cymunedol. Daeth hwnnw i'r casgliad bod ein dull yn gweithio'n dda. Tynnodd ein sylw hefyd at adborth i ni ei ystyried.

## Pwerau Cyfreithiol newydd

Yn 2015, ymgynghorodd Adran Iechyd y DU ar ddeddfwriaeth ddrafft i roi pwerau newydd i ni i reoleiddio fferyllfeydd cofrestredig. **Cyhoeddwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw mewn adroddiad** yn Chwefror 2016. Roedd cefnogaeth fawr iawn i'r cynigion yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys y rhai ar gyhoeddi a gorfodi.

Cytunwyd i'r ddeddfwriaeth newydd – **Gorchymyn Fferylliaeth (Safonau Lleoliadau, Rhwymedigaethau Gwybodaeth ac ati)** – yn 2016 a daw i rym ym mis Mai 2018.

## Ymglymu

Ers 2015, rydym wedi parhau i ofyn am adborth ar ein dull gan randdeiliad, cleifion a'r cyhoedd. Rydym hefyd wedi rhannu'r hyn a ddysgwyd gennym o ran ein dull mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau a chyfarfodydd, yn ogystal ag mewn erthyglau yn ein e-fwletin, Regulate.

Cynhaliom grwpiau ffocws gyda chleifion a'r cyhoedd ym mis Rhagfyr 2017 er mwyn clywed eu barn ar ein cynlluniau i ddatblygu'n dull rheoleiddio, gan gynnwys cyhoeddi adroddiadau arolygu. Roedd cyfranogwyr yn cytuno y dylid cyhoeddi adroddiadau arolygu ac y dylent fod yn hawdd eu gweld gan y cyhoedd. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r dull yr oeddem yn ei gynnig.

Rydym wedi defnyddio'r hyn a glywom gan randdeiliaid, cleifion a'r cyhoedd – gan gynnwys y grwpiau ffocws – i ddatblygu'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn.

## Yr hyn a ddysgwyd o arolygiadau

Ers i ni gyflwyno'r dull 'dangos a dweud', rydym wedi arolygu 12,825[1] o fferyllfeydd cofrestredig ledled Prydain. Rydym yn disgwyl y byddwn wedi arolygu pob fferyllfa gofrestredig ym Mhrydain erbyn Haf 2018. O'r rhai a gafodd eu harolygu, barnwyd bod 85% yn cyrraedd yr holl safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig. Roedd gofyn i'r rhai nad oedd yn eu cyrraedd baratoi cynllun gwella. Mae ein dadansoddiad ni yn awgrymu bod cynlluniau gwella yn gweithio'n dda – gyda 99% o'r fferyllfeydd yr oedd yn rhaid iddynt gwblhau cynlluniau gwella wedi gwneud y gwelliannau angenrheidiol yn 2016/17.[2]

[1] Rhwng 1 Tachwedd 2013 ac 1 Mawrth 2018

[2] Mae'r 1% sy'n weddill yn gynlluniau lle nad oedd angen gweithredu eto, neu pan fo iddynt gyfnod arweiniol hir

# Ein hagwedd strategol tuag at reoleiddio fferyllfeydd cofrestredig

Credwn fod gan reoleiddio fferyllol rôl bwysig i'w chyflawni yn y gwaith o wella ansawdd – y mae diogelwch yn rhan hollbwysig ohono – mewn ymarfer fferyllol a lles yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae ein strategaeth yn esbonio mewn dau air yr hyn yr ydym am ei gyflawni: sicrwydd a gwelliant. Ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig, golyga hyn:

- roi sicrwydd bod y safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig yn cael eu cyrraedd, a
- gyrru gwelliant yn ansawdd y gwasanaethau a'r gofal a ddarperir i'r cyhoedd


Mae'r fferyllfeydd cofrestredig a reolwn yn rhai amrywiol iawn eu natur. Mae fferyllfeydd cofrestredig yn darparu ystod eang o wasanaethau i gleifion ac i'r cyhoedd, ac wedi eu lleoli mewn nifer o amgylcheddau gwahanol – o ganolfannau siopa prysur mewn dinasoedd mawr i bentrefi bychain.  Mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu i gleifion ag anghenion gofal iechyd gwahanol iawn: efallai y bydd gan rai gyflyrau hir dymor ac eraill yn ymweld â fferyllfa'n llai aml. Mae contractau'r GIG gyda fferyllfeydd yn amrywio o le i le yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, ac mae'r ffordd y cyllidir gwasanaethau hefyd yn amrywio. Gwyddom hefyd y bydd technoleg, a defnydd cynyddol ar ddulliau cyfathrebu digidol, yn dylanwadu ar ddulliau darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae'n hollbwysig, felly, nad yw ein dulliau rheoleiddio yn aros yn ddigyfnewid. Rhaid i'n dull rheoleiddio fod yn fywiog ac yn hyblyg. A rhaid i ni barhau i fireinio a gwella ein dulliau er mwyn adlewyrchu datblygiadau mewn fferylliaeth. Credwn mai dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yw'r unig ffordd o wneud hyn.

Rydym hefyd am sicrhau nad ydym yn rhwystro ffyrdd blaengar a chyfrifol o weithio a'n bod yn gymesur yn y ffordd y rheoleiddiwn. Byddwn yn sicrhau ein bod yn ystyried y cyd-destun y mae gwahanol fferyllfeydd yn gweithio ynddo wrth reoleiddio, gan ddefnyddio'r safonau i gyd ymhob cyd-destun.

Mae gwella'r ffordd rydym yn casglu, defnyddio a rhannu gwybodaeth yn ganolog i'n dull strategol o reoleiddio, ac mae'n adlewyrchu ymrwymiad ein Cyngor i ddefnyddio data a mewnwelediad yn well. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth fwyfwy i dargedu ein hadnoddau i'r meysydd y cânt yr effaith fwyaf arnynt. Rydym yn gwybod ein bod mewn sefyllfa unigryw am ein bod yn gweld llawer o arferion gwaith nodedig wrth adolygu. Felly, mae cyhoeddi adroddiadau arolygu a rhannu'r hyn a ddysgwn hefyd yn ganolog i'n dull newydd ac yn ein helpu i sicrhau bod cleifion a'r cyhoedd yn derbyn gofal diogel ac effeithiol.

# Sut rydym yn rheoleiddio fferyllfeydd




Rydym yn arolygu fferyllfeydd cofrestredig mewn nifer o ffyrdd:

a Rydym yn nodi'n glir yn y broses **gofrestru** pa feini prawf y mae'n rhaid i fferyllfeydd eu bodloni er mwyn gallu cofrestru gyda ni, ac mae hyn yn cynnwys dangos sut y cyrhaeddir y safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig.

b Rydym yn gosod **safonau** ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig, sy'n nodi'n glir pa ddisgwyliadau sydd ar berchnogion fferyllfeydd a'r canlyniadau sy'n rhaid eu sicrhau er mwyn dangos bod cleifion a'r cyhoedd yn derbyn gofal diogel ac effeithiol. Mae 26 o safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig, wedi eu casglu dan bum prif egwyddor: llywodraethiant, staff, lleoliadau fferyllol, rheoli meddyginiaethau, ac offer a chyfleusterau.

c Drwy ein **harolygiadau** rydym yn rhoi sicrwydd bod y safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig yn cael eu cyrraedd. Mae'r broses hefyd yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau bod ansawdd gwasanaethau fferyllol yn gwella. (Gweler adran 1)

d Cyn bo hir, bydd gennym bwerau i **gyhoeddi** adroddiadau arolygu. Mae cyhoeddi adroddiadau'n ffordd bwysig o roi sicrwydd a gyrru gwelliant yn ansawdd gwasanaethau fferyllol (Geler adran 4)

e Bydd gennym nifer o **declynnau gorfodi** y gallwn eu defnyddio i sicrhau bod gwasanaethau fferyllol a ddarperir mewn neu o fferyllfeydd cofrestredig yn ddiogel ac yn effeithiol. (gweler adran *Newidiadau i'n pwerau gorfodi*)


f Byddwn yn parhau i ddilyn yr egwyddor y dylai pob un o'n grwpiau cofrestredig, gan gynnwys perchnogion fferyllfeydd, fod yn gyfrifol am gostau rheoleiddio'r grŵp hwnnw drwy'r ffioedd a dalant. Byddwn yn parhau i adolygu costau rheoleiddio ac yn dyrannu ffioedd yn deg ac yn gymesur.

# Ein cynigion

## 1. Cyflwyno mathau newydd o arolygiadau

1.1 Rydym yn gwella ein dull arolygu er mwyn sicrhau ein bod yn ymatebol. Byddwn yn defnyddio tri math o arolygiad, y gallwn eu defnyddio'n hyblyg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae hyn yn ein galluogi i fod yn fwy ymatebol pan fo angen, ac yn golygu ein bod yn gallu edrych ar faterion penodol mewn fferylliaeth a gwasanaethau, mewn mwy o fanylder. Credwn fod ein cynigion yn gwellau'n gallu i roi sicrwydd i'r cyhoedd ac annog perchnogion fferyllfeydd i wella ansawdd eu gwasanaethau'n barhaus. Byddwn yn parhau i arolygu pob fferyllfa gofrestredig ym Mhrydain.

### Mathau o arolygiadau




### Arolygiadau arferol

1.2 Mae arolygiadau arferol yn rhoi sicrwydd i gleifion ac i'r cyhoedd bod fferyllfeydd yn parhau i gyrraedd y safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig. Rydym yn gwella ein dull er mwyn sicrhau bod ein rhaglen arolygu yn fwyfwy hyblyg ac effeithiol ac wedi ei seilio ar ddangosyddion risg wrth benderfynu pa fferyllfeydd i'w harolygu gyntaf.

1.3 Mae hyn yn golygu y byddwn yn arolygu fferyllfeydd a raddiwyd yn rhai 'gwael' gyntaf, wedyn y rhai sydd wedi derbyn gradd 'boddhaol gyda chynllun gweithredu'. Wedi i ni arolygu fferyllfeydd y bu ganddynt gynlluniau gweithredu, byddwn yn arolygu'r fferyllfeydd â gradd 'boddhaol' (heb gynllun gweithredu), ac wedyn y rhai 'da' ac wedyn y rhai 'rhagorol'. Bydd hyn yn ein galluogi i werthuso a yw gwelliannau blaenorol wedi eu cynnal.

1.4 Bydd dangosyddion eraill y byddwn hefyd yn eu defnyddio wrth benderfynu pa fferyllfeydd y dylid eu harolygu gyntaf. Gallai'r rhain gynnwys fferyllfeydd lle mae'r perchennog wedi newid neu lle bu newid sylweddol i strwythurau llywodraethiant fferyllfa, neu pan fo graddfa neu gymhlethdod gwasanaethau wedi newid yn arwyddocaol.

1.5 Yn yr un modd â'r dull presennol, pan fydd un neu ragor o'r safonau heb eu cyrraedd, bydd yn rhaid i berchennog fferyllfa greu

cynllun gwella yn esbonio'r hyn y bydd yn ei wneud, o fewn amser penodol, i fynd i'r afael â'r materion dan sylw a chyrraedd y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllfeydd cofrestredig. Byddwn yn parhau i gadw mewn cysylltiad gyda'r fferyllfeydd hyn i sicrhau eu bod yn gweithredu'r gwelliannau angenrheidiol ac yn cyrraedd y safonau i gyd.

## Arolygiadau wedi eu harwain gan wybodaeth

1.6 Rydym yn aml yn derbyn gwybodaeth ynghylch fferyllfeydd gan bobl neu sefydliadau eraill, gan gynnwys rheoleiddwyr, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r cyhoedd, yn ogystal â newyddiadurwyr a'r cyfryngau. Rydym eisoes yn defnyddio'r wybodaeth hon i flaenoriaethu arolygiadau: er enghraifft os bydd pryderon am ddiogelwch gwasanaethau fferyllol. Rydym hefyd yn derbyn gwybodaeth drwy bryderon sy'n cael eu mynegi am weithwyr fferyllol proffesiynol, a allai roi gwybodaeth am fferyllfa neu fferyllfeydd.

1.7 Byddwn yn defnyddio rhai o'n hadnoddau presennol i sicrhau ein bod yn gallu bod yn fwy ymatebol a delio'n gyflym gyda risgiau neu bryderon sydd wedi eu mynegi wrthym.

1.8 Rydym hefyd yn gwybod y bydd ein gallu i gynnal arolygiadau wedi eu harwain gan wybodaeth yn cynyddu dros amser wrth i ni ddefnyddio'r wybodaeth a gawn gan eraill yn well. Byddwn yn gallu gweld rhai o'r patrymau a'r tueddiadau sy'n creu problemau i fferyllfeydd, a bydd hyn yn ei dro yn ein helpu i flaenoriaethu'n arolygiadau arferol yn y dyfodol.

## Arolygiadau thematig

1.9 Rydym yn bwriadu cynnal rhaglen arolygu thematig. Bydd y rhain yn golygu ymweld â detholiad o fferyllfeydd gan ganolbwyntio ar themâu neu faterion penodol mewn mwy o fanylder. Gallai'r rhain gynnwys, er enghraifft, rheoli risg wrth ddarparu meddyginiaethau ar-lein, neu wasanaethau a ddarperir i gartrefi gofal.

1.10 Efallai y byddwn hefyd yn cynnal arolygiadau yn sgil materion a risgiau a nodwyd drwy'r broses arolygu arferol. Bydd yr arolygiadau hyn yn rhai hyblyg a byddant yn ein galluogi i ymateb i risgiau sy'n dod i'r amlwg a datblygiadau newydd mewn gwasanaethau fferyllol. Byddant yn ein galluogi i ddeall y materion gwaelodol yn well, eu hachosion a'u heffaith.

1.11 Efallai y caiff arolygiadau thematig eu haddasu i gael eu cynnal ar draws ffiniau sefydliadol a systemau iechyd. Maen nhw hefyd yn debygol o gynnwys arolygu nifer o fferyllfeydd. Rydym yn disgwyl y byddwn yn defnyddio o leiaf ddau arolygwr i gynnal arolygiad thematig, weithiau gyda chymorth arbenigwyr o sefydliadau eraill.

1.12 Credwn y bydd yr arolygiadau hyn yn gyrru gwelliannau yn ansawdd y gwasanaeth fferyllol, drwy:

- nodi arfer dda a chyfleoedd dysgu y gellir eu rhannu drwy'r sector, a

- galluogi perchnogion fferyllfeydd eraill i ddysgu ac i wella ansawdd y gwasanaethau maen nhw’n eu darparu

Byddwn hefyd yn defnyddio’r hyn a ddysgwn o’r arolygiadau hyn i ddatblygu ein gwaith rheoleiddio ein hunain, ac i gynhyrchu canllawiau.

## Cwestiynau ynghylch y cynigion hyn

Ydych chi'n credu y bydd y tri math o arolygiad yn:

- rhoi mwy o sicrwydd bod fferyllfeydd yn cyrraedd ein safonau?
- ein galluogi i fod yn fwy ymatebol i risgiau neu newidiadau mewn fferylliaeth neu ofal iechyd?
- Helpu i yrru gwelliant drwy nodi a rhannu arfer dda?

Oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y mathau o arolygiadau?

## 2. Arolygiadau heb rybudd

2.1 Ar hyn o bryd, rydym yn ysgrifennu at berchnogion fferyllfeydd cyn arolygiad. Rydym yn dweud wrthynt y byddwn yn arolygu'r fferyllfa gofrestredig o fewn y bedair i chwe wythnos nesaf. Rydym wedi clywed gan gleifion a'r cyhoedd yn ystod grwpiau ffocws y byddent yn croesawu arolygiadau heb rybudd. Mae hyn yn rhoi sicrwydd ychwanegol bod canlyniadau arolygiadau'n adlewyrchu profiad cleifion a'r cyhoedd yn well, ac i ba raddau mae fferyllfa yn cyrraedd ein safonau o ddydd i ddydd.

2.2 Gall cyfrannu at arolygiad dynnu aelodau o'r tîm fferyllol oddi ar eu gwaith yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd am gyfnodau byr. Sylweddolwn y gallai perchnogion fferyllfeydd a goruchwylwyr fod eisiau rhybudd o flaen llaw ynghylch pryd y bydd arolygiad yn digwydd, er mwyn iddynt ystyried a oes angen staff ychwanegol i allu parhau i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, rydym am bwysleisio y bydd arolygwyr yn gadael ac yn dychwelyd ar adeg arall os ydynt yn teimlo bod eu presenoldeb yn amharu ar ddiogelwch cleifion, fel y maen nhw'n ei wneud ar hyn o bryd.

2.3 Sylweddolwn hefyd y gallai perchnogion a goruchwylwyr fferyllfeydd ddymuno bod yn bresennol yn ystod arolygiad. Ond rydym am sicrhau bod yr arolygiad yn adlewyrchu'r profiad mae cleifion a'r cyhoedd yn ei gael ar y diwrnod penodol hwnnw. A dylai'r fferyllfa fod yn cyrraedd y safonau bob dydd.

2.4 Rydym yn cynnig, felly, y bydd arolygiadau'n digwydd heb rybudd fel arfer. Rydym yn gwybod, fodd bynnag, y bydd sefyllfaoedd pan na fydd yn bosibl i ni arolygu fferyllfa heb rybudd: er enghraifft, os yw'r fferyllfa mewn carchar neu amgylchedd arall wedi ei ddiogelu. Yn yr un modd, credwn y bydd angen trefnu arolygiadau thematig, fydd yn cynnwys nifer o fferyllfeydd a thîm o arolygwyr, o flaen llaw.

2.5 Mae ein harolygwyr wastad yn sicrhau nad yw eu presenoldeb yn cynyddu risg i gleifion.

### Cwestiynau ynghylch y cynigion hyn

Ydych chi'n credu bod symud o arolygiadau gyda rhybudd i rai heb rybudd fel rheol gyffredinol yn rhoi mwy o sicrwydd bod fferyllfeydd yn cyrraedd ein safonau bob dydd?

Rydym wedi nodi sefyllfaoedd lle gallai fod yn amhosibl cynnal arolygiad heb rybudd. Oes sefyllfaoedd eraill y dylem eu hystyried?

Oes gennych unrhyw sylwadau eraill am reol gyffredinol cynnal arolygiadau heb rybudd?

## 3. Newidiadau i ganlyniadau arolygiadau

3.1 Gyda'n system bresennol, mae fferyllfeydd yn derbyn canlyniad cyffredinol i'w harolygiadau, a allai fod yn 'gwael', 'boddhaol', 'da' neu 'rhagorol'.

3.2 Rydym yn gwybod o'r ymchwil ICF a gomisiynwyd gennym, a'r adborth a dderbyniom, fod pryderon am y ffordd yr ydym yn disgrifio'r canlyniadau. Yn benodol: diffyg eglurder a gwahaniaethu rhwng y canlyniadau, a'r term 'boddhaol'. Awgrymodd yr ymchwil ddau ddatrysiad gwahanol. Un datrysiad oedd cyflwyno system sgorio gyda rhagor o raddau. Y llall oedd cyflwyno canlyniad 'pasio neu fethu' y byddai ei chamddehongli'n anos.

3.3 Rydym am sicrhau bod canlyniad cyffredinol arolygiad yn ei gwneud hi'n glir i gleifion, y cyhoedd a pherchnogion fferyllfeydd a yw fferyllfa wedi cyrraedd ein safonau ai peidio. Y dull yr ydym ni'n ei awgrymu yw:

- Y safonau wedi eu cyrraedd, neu
- Heb gyrraedd y safonau i gyd

3.4 Pan fo fferyllfa heb gyrraedd un safon neu ragor, byddem yn ei gwneud hi'n glir yn adroddiad yr arolygiad a oes cynllun gwella yn ei le, neu a oes camau gorfodi yn cael eu cymryd. Mae enghreifftiau o'r ffordd y byddai'r canlyniadau yn cael eu cyflwyno yn dilyn.

| Canlyniad arolygiad | |
|---|---|
| Gall canlyniad cyffredinol arolygiad fod 'wedi eu cyrraedd' (y safonau i gyd wedi eu cyrraedd) neu 'heb eu cyrraedd i gyd' (un neu ragor o'r safonau, isod, heb eu cyrraedd) | ✔ Safonau wedi eu cyrraedd |

| Canlyniad arolygiad | |
|---|---|
| Gall canlyniad cyffredinol arolygiad fod 'wedi eu cyrraedd' (y safonau i gyd wedi eu cyrraedd) neu 'heb eu cyrraedd i gyd' (un neu ragor o'r safonau, isod, heb eu cyrraedd) | ✖ Safonau i gyd heb eu cyrraedd<br>Cynllun gweithredu gwella yn ei le |

| Canlyniad arolygiad | |
|---|---|
| Gall canlyniad cyffredinol arolygiad fod 'wedi eu cyrraedd' (y safonau i gyd wedi eu cyrraedd) neu 'heb eu cyrraedd i gyd' (un neu ragor o'r safonau, isod, heb eu cyrraedd) | ✖ Safonau i gyd heb eu cyrraedd<br>Mesurau gorfodi ar waith |

3.5 Credwn y bydd y dull hwn yn rhoi sicrwydd clir a hawdd, yn hytrach na chyflwyno rhagor o raddau a rhagor o gyfleoedd ar gyfer amwysedd. Rhoddom y dull hwn ar brawf yn y grwpiau ffocws ar gyfer cleifion a'r cyhoedd yn 2017, ac roedd cytundeb bod y canlyniadau hyn yn glir ac yn hawdd eu deall.

3.6 Byddwn hefyd yn parhau i roi canlyniad ar gyfer pob un o bump egwyddor y safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig, gan fod hyn yn darparu ffordd o fesur perfformiad i ni a pherchnogion fferyllfeydd a'u timau. Bydd hyn yn ein helpu ni i gyd i ddeall ynghylch pa safonau y mae ar berchnogion angen cymorth a chanllawiau ychwanegol, ac yn erbyn pa safonau y maen nhw'n perfformio'n dda. Credwn fod y dull hwn yn gymorth i'r ymdrech i wella ansawdd gwasanaethau ar gyfer cleifion a'r cyhoedd.

3.7 Roedd cytundeb cyffredinol yn y grwpiau ffocws ei bod yn bwysig gallu deall pa mor dda yr oedd fferyllfa wedi perfformio dan bob egwyddor. Felly bydd ein hadroddiadau arolygu yn nodi un canlyniad o blith pedwar ar y brif lefel:

- **safonau i gyd heb eu cyrraedd**
- **safonau wedi eu cyrraedd**
- **arfer dda, ac**
- **arfer ragorol**

3.8 Gyda'n dull arfaethedig, bydd yn rhaid i fferyllfa gyrraedd pob un o'r safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig i gael canlyniad cyffredinol, 'safonau wedi eu cyrraedd'. Os bydd fferyllfa heb gyrraedd safon, byddai hyn yn arwain at ganlyniad 'y safonau i gyd heb eu cyrraedd'. Mae hyn oherwydd bod y safonau wedi bod yn eu lle ers pum mlynedd. Mae cleifion yn disgwyl i fferyllfa sydd wedi derbyn canlyniad 'safonau wedi eu cyrraedd' fod wedi cyrraedd y safonau i gyd.

3.9 Yn yr un modd ag y mae ar hyn o bryd, bydd arolygwyr yn defnyddio'u crebwyll ar sail y dystiolaeth a gasglant yn y fferyllfa i benderfynu a yw safon wedi ei chyrraedd ai peidio. Maen nhw'n defnyddio'r fframwaith penderfynu i'w helpu i wneud hynny. Wrth ystyried a yw safon wedi ei chyrraedd, bydd yr arolygwr yn ystyried effaith a graddfa'r maes i'w wella. Po fwyaf yr effaith ar ddiogelwch gleifion, y mwyaf tebygol y mae na fydd y safon yn cael ei chyrraedd. Bydd diffyg cydymffurfiaeth cymharol fach yn annhebygol o dderbyn canlyniad o safon heb ei chyrraedd, fel y mae ar hyn o bryd hefyd.

3.10 Os bydd fferyllfa yn methu â chyrraedd y safonau, bydd yn rhaid i berchennog y fferyllfa gwblhau cynllun gweithredu gwella. Mae'r cynllun gweithredu gwella yn declyn rheoleiddio. Mae'n cofnodi'r camau y bydd y perchennog yn eu gweithredu i sicrhau bod y safonau na chafodd eu cyrraedd wedyn yn cael eu cyrraedd. Yn bwysig, bydd yn cynnwys dyddiad erbyn pryd y bydd y gwelliannau wedi eu gweithredu. Mae cynlluniau gwella wedi eu profi'n declyn effeithiol i sicrhau bod gwelliannau angenrheidiol yn digwydd. Drwy ymchwil yr ICF, clywom hefyd fod datblygu cynlluniau gweithredu gwella hefyd yn helpu gweithwyr fferyllol proffesiynol i ganolbwyntio ar y materion sydd bwysicaf i gleifion.

3.11 Wedi i'r perchennog ddweud wrthym ei fod wedi cwblhau'r cynllun gweithredu gwella, efallai y bydd angen i'r arolygwr ymweld eto â'r fferyllfa i adolygu a yw'r gwelliannau angenrheidiol wedi digwydd. Pan fydd yr arolygwr yn fodlon bod y fferyllfa'n cyrraedd y safonau a bod y gwelliannau'n cael eu cynnal, byddwn yn dweud wrth berchennog y fferyllfa fod y cynllun gweithredu gwella wedi ei gwblhau ac na fydd camau gorfodi statudol yn digwydd. Byddwn yn anfon canlyniad cyffredinol wedi ei ddiweddaru ac adroddiad i'r fferyllfa. Byddwn hefyd yn cyhoeddi'r canlyniad wedi ei ddiweddaru a'r adroddiad ar ein gwefan. Bydd yr adroddiad arolygu blaenorol yn cael ei storio mewn adran yn dangos hanes arolygu blaenorol.

### Enghraifft 1
### Cadw cofnodion – safon 1.6

Wrth edrych drwy'r llyfr cofnodi presgripsiynau preifat, mae'r arolygwr yn gweld bod pedwar cofnod anghyflawn yn ystod yr ychydig fisoedd blaenorol, gyda dyddiad y presgripsiwn, cyfeiriad y sawl greodd y presgripsiwn neu faint y feddyginiaeth ar goll.

Yn gyffredinol, heblaw am yr eithriadau hyn, roedd cofnodion y fferyllfa'n ymddangos yn gyflawn ac yn gyfredol.

Ystyrir hyn yn ddiffyg cydymffurfiaeth bychan iawn mewn nifer gyfyngedig o achosion ac yn annhebygol o effeithio ar ddiogelwch neu ofal cleifion. Yn yr amgylchiadau hyn, bernir bod y safon berthnasol wedi ei chyrraedd.

## Enghraifft 2
## Cyfrinachedd – safonau 1.7, 5.3

Yn ystod arolygiad, mae arolygwr yn canfod nad yw fferyllfa yn gweithredu'n ddigonol i sicrhau bod gwybodaeth cleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol.

Pan fo yn y fferyllfa, mae'r arolygwr yn gweld bod gwybodaeth gyfrinachol, yn cynnwys ffurflenni Adolygu Defnydd Meddyginiaethau, wedi ei gadael ar ddesg yr ystafell ymgynghori gyda'r drws ar agor led y pen a neb yn gofalu am yr ystafell. Mae'r presgripsiynau sy'n barod i'w casglu wedi eu storio mewn man lle mae manylion cleifion i'w gweld gan gleifion a chwsmeriaid eraill y fferyllfa.

Mae aelodau o dîm y fferyllfa hefyd yn cadarnhau na fu unrhyw hyfforddiant ar gadw gwybodaeth yn gyfrinachol ers llawer blwyddyn.

Ystyrir bod y rhain yn achosion lluosog o ddiffyg cydymffurfiaeth o ran cadw gwybodaeth cleifion yn gyfrinachol ac felly bernir bod y safonau'n ymwneud â chyfrinachedd cleifion heb eu cyrraedd.

## Cwestiynau ynghylch y cynigion hyn

Rydym yn cynnig cael dau ganlyniad cyffredinol posibl mewn arolygiad – 'safonau wedi eu cyrraedd' a 'safonau i gyd heb eu cyrraedd'. Ydych chi'n credu y bydd hyn yn ei gwneud hi'n glir i gleifion, y cyhoedd a pherchnogion fferyllfeydd bod fferyllfa wedi cyrraedd, neu heb gyrraedd, y safonau?

Rydym yn cynnig cael pedwar canlyniad posibl ar gyfer pob un o'r egwyddorion – 'safonau i gyd heb eu cyrraedd', 'safonau wedi eu cyrraedd', 'arfer dda' ac 'arfer ragorol'. Ydych chi'n credu y bydd hyn yn:

- rhoi dull mesur perfformiad i berchnogion, eu timau a'r CFC?
- Parhau i yrru gwelliant yn ei flaen?

Ydych chi'n credu y dylai methu â chyrraedd un safon olygu bod fferyllfa yn derbyn canlyniad cyffredinol 'safonau i gyd heb eu cyrraedd'?

Oes gennych unrhyw sylwadau am eiriad canlyniad cyffredinol arolygiadau, sef 'safonau wedi eu cyrraedd' a 'safonau i gyd heb eu cyrraedd'?

Oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch y newidiadau rydym yn eu cynnig i ganlyniadau arolygiadau?

## 4. Cyhoeddi

4.1 Rydym wedi dweud ar goedd ein bod yn bwriadu cyhoeddi pob adroddiad arolygu wedi i ni dderbyn pwerau deddfwriaethol i wneud hynny. Roedd cytundeb helaeth yn ymchwil yr ICF bod adroddiadau arolygu'n helpu perchnogion fferyllfeydd i wella'r gwasanaethau a ddarperir i gleifion a'r cyhoedd. Credwn y bydd cyhoeddi adroddiadau arolygu'n ymbweru cleifion, y cyhoedd a fferylliaeth. Mae cyhoeddi adroddiadau arolygu'n angenrheidiol am bedwar prif reswm:

- Dylem fod yn agored ac yn dryloyw am ganlyniadau arolwg, a'r dystiolaeth a gasglwyd i ddod i'r penderfyniad hwnnw.
- Bydd cyhoeddi adroddiadau arolygu yn rhoi sicrwydd clir i'r cleifion bod fferyllfeydd wedi cyrraedd y safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig.
- Bydd cyhoeddi'n galluogi'r sector fferylliaeth cyfan i ddefnyddio'r wybodaeth sydd yn yr adroddiadau i wella.
- Bydd cyhoeddi adroddiadau arolygu yn golygu ein bod yn gweithredu yn yr un ffordd â'r dull a weithredir gan wasanaethau gofal iechyd eraill.

### Adroddiadau arolygu

4.2 Byddwn yn cyhoeddi pob adroddiad arolygu wedi arolygiadau arferol ac arolygiadau wedi eu harwain gan wybodaeth yn y dyfodol. Ni fydd adroddiadau arolygu yn cynnwys gwybodaeth fydd yn sensitif yn fasnachol na gwybodaeth fyddai'n gallu adnabod cleifion neu'r tîm fferyllol. Bydd adroddiad arolygu'n cynnwys dolen i'r adroddiad manwl. Bydd yr adroddiad manwl yn cynnwys tystiolaeth o'r hyn a ganfuwyd ac enghreifftiau o ymarfer nodedig. Mae modd **gweld enghraifft o adroddiad cryno** ac **adroddiad manwl** ar ein gwefan.

4.3 Byddwn hefyd yn cyhoeddi pob cynllun gweithredu gwella. Mae'r rhain yn egluro'r hyn y bydd perchennog fferyllfa'n ei wneud i sicrhau ei fod yn cyrraedd y safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig. Mae modd gweld enghraifft o gynllun gweithredu gwella ar ein gwefan.

4.4 Yr adroddiad cryno fydd y brif ffynhonnell wybodaeth y bydd y cyhoedd yn ei gweld ar y wefan. Bydd yn fersiwn glir a hygyrch o'r adroddiad manwl. Bydd yn cynnwys crynodeb o'r canlyniad cyffredinol, y canfyddiadau ar y brif lefel a dolenni i unrhyw gynllun gweithredu gwella.

4.5 Bydd yr adroddiad manwl yn cynnwys y dystiolaeth sy'n cefnogi'r canfyddiadau ar y brif lefel. Y brif gynulleidfa ar gyfer yr adroddiad manwl fydd perchnogion fferyllfeydd, goruchwylwyr a thimau fferyllol. Bydd yr adroddiad manwl ar gael i'r cyhoedd drwy ddolen yn yr adroddiad cryno.

4.6 I greu'r cynigion rydym wedi defnyddio adborth gan gleifion a'r cyhoedd mewn grwpiau ffocws a gynhaliwyd yn 2017. Yn y grwpiau ffocws, eglurom ein cynlluniau i gyhoeddi adroddiadau yn y dyfodol a rhannom enghreifftiau o sut olwg allai fod ar yr adroddiadau.

4.7 Roedd cyfranogwyr o'r farn bod yr adroddiadau drafft yn glir ac yn hawdd eu darllen, a dywedon nhw eu bod yn cynnwys y wybodaeth y byddent yn ei hystyried yn berthnasol iddyn nhw. Roedd cytundeb cyffredinol y byddai'r cyhoedd am ddarllen yr adroddiadau cryno'n unig. Ond mynegwyd y farn hefyd y dylai'r adroddiad cryno gynnwys dolen i'r adroddiad manwl. Awgrymodd cyfranogwyr hefyd y dylai fod dolen i unrhyw gynlluniau gweithredu gwella, gydag amserlen ar gyfer y gwelliannau, yn yr adroddiad cryno ac yn yr adroddiad manwl.

4.8 Ni fydd yr adroddiadau a gyhoeddwn wedi arolygiad thematig yn cynnwys canlyniadau unigol ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig fu'n rhan o'r arolygiadau. Mae'r math hwn o arolygiad yn edrych ar faterion penodol yn y ffordd y mae fferylliaeth yn gweithio neu agweddau ar y gwasanaethau a ddarperir ganddo. Byddwn yn cyhoeddi un adroddiad cyffredinol ar gyfer pob adolygiad thematig a bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan. Bydd yr adroddiadau hyn yn rhyngweithiol a difyr, gyda'r wybodaeth yn hygyrch fel ffynhonnell ddysgu ar gyfer y maes fferyllol i gyd.

4.9 Roedd consensws clir ymhlith cyfranogwyr y grwpiau ffocws gyda chleifion a'r cyhoedd y byddent hefyd am weld canlyniadau arolygiadau'n cael eu harddangos yn glir mewn fferyllfeydd. Nid oes gennym bŵer i orfodi perchnogion fferyllfeydd i arddangos canlyniad arolygiad, rydym yn bwriadu ystyried opsiynau i'w rhoi i fferyllfeydd yn dangos canlyniad eu harolygiad. Byddai hyn yn dweud wrth bobl sy'n defnyddio'r fferyllfa honno a gyrhaeddodd ein safonau yn ystod ei harolygiad diwethaf.

## Cwestiynau ynghylch y cynigion hyn

Ydych chi'n credu y dylem gyhoeddi adroddiadau arolygu?

Ydych chi'n credu y bydd cyhoeddi adroddiadau arolygu yn:

- rhoi mwy o dryloywder ynghylch canlyniad arolygiad?
- rhoi sicrwydd clir i ddefnyddwyr gwasanaethau fferyllol bod fferyllfa wedi cyrraedd y safonau?
- Galluogi'r sector fferylliaeth cyfan i ddefnyddio'r wybodaeth yn yr adroddiadau i wella?

Oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch fformat a chynnwys yr adroddiadau cryno, manwl a thematig?

Rydym yn bwriadau cyhoeddi cynlluniau gweithredu gwella er mwyn i ni fod yn agored ac yn dryloyw ynghylch pob agwedd ar ein proses arolygu.

Ydych chi'n credu y dylem gyhoeddi cynlluniau gweithredu gwella?

Ydych chi'n credu y dylai fod disgwyl ar berchnogion fferyllfeydd i arddangos canlyniad eu harolygiad yn y fferyllfa?

## 5. Y wefan a'r hyb gwybodaeth

5.1 Rydym am i gyhoeddi adroddiadau arolygu yrru gwelliannau yn ansawdd gwasanaethau fferyllol a gofal. Dim ond os byddwn yn cyhoeddi adroddiadau arolygu mewn ffordd sy'n hygyrch ac yn caniatáu i bobl ddod o hyd i, a dadansoddi gwybodaeth, yn hawdd er mwyn iddynt ddysgu a gwella y bydd hyn yn digwydd.

5.2 Rydym yn cynllunio gwefan newydd fydd yn cynnwys ein hadroddiadau arolygu cyhoeddedig. Rydym yn canolbwyntio ar greu profiad da i ddefnyddwyr fydd yn hygyrch ac yn gweithredu ar egwyddorion cydraddoldeb. Rydym yn disgwyl y bydd modd chwilio am adroddiadau arolygu fesul cod post, enw fferyllfa, math o fferyllfa, canlyniad arolygiad, egwyddor, safon, map neu 'wedi eu cyhoeddi'n ddiweddar'.

5.3 Yr adroddiad cryno fydd y brif ffynhonnell wybodaeth ar y wefan. Bydd yn cynnwys crynodeb o'r canlyniad cyffredinol, y canfyddiadau ar y brif lefel a dolenni i unrhyw gynlluniau gweithredu gwella. Bydd yr adroddiad manwl yn cynnwys y dystiolaeth sy'n cefnogi'r canlyniad cyffredinol a'r canfyddiadau ar y brif lefel. Mae hefyd yn nodi arfer nodedig – da a rhagorol – ac enghreifftiau o sefyllfaoedd lle na chyrhaeddir safon.

5.4 Byddwn yn defnyddio'r arferion nodedig i greu astudiaethau achos y gall eraill ddysgu ohonynt. Bydd y rhain i'w gweld yn ein 'hyb gwybodaeth'. Rydym yn bwriadau i'r hyb gwybodaeth ddatblygu'n ffynhonnell ddysgu gyfoethog, ar gyfer y sector yn bennaf, dros amser. Bydd y safle'n rhyngweithiol a bydd modd i ddefnyddwyr chwilio drwyddi. Yn olaf, byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiadau arolygu ochr yn ochr â chofnod fferyllfa ar y gofrestr ar-lein.

### Cwestiynau ynghylch y cynigion hyn

Ydych chi'n credu y bydd y wefan ryngweithiol a'r hyb gwybodaeth yn:

- gwneud gwybodaeth yn hawdd ei chyrchu?
- annog rhannu gwybodaeth o fewn y sector fferylliaeth?
- galluogi dysgu gan enghreifftiau o safonau na chafodd eu cyrraedd, ac o arfer dda a rhagorol?
- gyrru gwelliannau fferyllol yn eu blaen?

## 6. Cyhoeddi adroddiadau arolygu

6.1 Mae'n bwysig ein bod yn cyhoeddi pob adroddiad arolygu mor fuan â phosibl ag y gallwn wedi'r arolygiad. Credwn y bydd oedi diangen yn tanseilio'r sicrwydd a rown i'r cyhoedd a chleifion. Fodd bynnag, rhaid i ni hefyd sicrhau bod cleifion a'r cyhoedd, yn ogystal â pherchnogion fferyllfeydd, yn hyderus ynghylch cynnwys ac ansawdd adroddiadau arolygu. Felly, ar gyfer pob arolygiad arferol a phob arolygiad wedi ei arwain gan wybodaeth, byddwn yn parhau i:

- anfon yr adroddiadau arolygu at y perchnogion fferyllfeydd o flaen llaw i wirio cywirdeb yr adroddiad cyn cyhoeddi
- sicrhau fod ansawdd pob adroddiad arolygu wedi ei sicrhau

Yn rhan o'n cynigion newydd byddwn yn:

- diweddaru ein fframwaith penderfynu
- datblygu proses i adolygu canlyniad cyffredinol arolygiad, os bydd perchennog fferyllfa yn herio ein penderfyniadau ar sail cywirdeb ffeithiol. Bydd y broses yn cynnwys rheolwr tîm arolygu fydd yn annibynnol ar y rhanbarth y mae'r fferyllfa ynddo
- hysbysu perchennog y fferyllfa cyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu

6.2 Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau arolygu mewn ffordd fydd wedi ei rheoli'n systematig. Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau mewn batsys yn wythnosol neu'n fisol. Os bydd fferyllfa wedi methu â chyrraedd pob safon, byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad arolygu yn y ffordd arferol. Pan fydd yr arolygwr yn fodlon bod cynllun gweithredu gwella wedi ei gwblhau, bod y fferyllfa'n cyrraedd y safonau a bod y gwelliannau'n cael eu cynnal, byddwn yn cyhoeddi canlyniad cyffredinol wedi ei ddiweddaru ac adroddiad ar ein gwefan yn dangos bod y fferyllfa wedi cyrraedd y safonau i gyd. Fodd bynnag, byddai'r adroddiad arolygu blaenorol yn parhau i fod ar gael mewn adran yn dangos hanes arolygu blaenorol.

6.3 Mae natur arolygiadau thematig (a allai gynnwys arolygu nifer fawr o fferyllfeydd gan fwy nag un sefydliad) yn golygu y bydd angen mwy o amser i baratoi adroddiadau ar eu cyfer. Bydd yr adroddiadau hyn hefyd yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

### Cwestiynau ynghylch y cynigion hyn

Oes gennych unrhyw sylwadau ar y broses gyhoeddi?

## 7. Effaith y cynigion

### Cwestiynau cyffredinol am y cynigion hyn

Pa fath o effaith gredwch chi gaiff y cynigion ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol?

Pa fath o effaith gredwch chi gaiff y cynigion ar berchnogion fferyllfeydd cofrestredig?

Pa fath o effaith gredwch chi gaiff y cynigion ar y tîm fferyllol?

Rydym am ddeall a allai ein cynigion gamwahaniaethu yn erbyn unrhyw unigolion sy'n rhannu unrhyw rai o nodweddion gwarchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010, neu gael eu rhoi, yn anfwriadol, dan anfantais ganddynt. Y nodweddion yw:

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gredo
- Rhyw
- Tuedd rywiol.

Ydych chi'n credu y bydd unrhyw beth yn y cynigion yn cael effaith – gadarnhaol neu negyddol – ar unigolion penodol neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw rai o'r nodweddion a restrir uchod?

Disgrifiwch yr effaith a'r unigolion neu grwpiau dan sylw.

# Newidiadau i'n pwerau gorfodi

Mae **Gorchymyn Fferylliaeth (Safonau lleoliadau, Rhwymedigaethau gwybodaeth ac ati) 2016** yn cyflwyno nifer o newidiadau i'r pwerau gorfodi o ran fferyllfeydd sy'n methu â chyrraedd y safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig.

Os canfyddir bod fferyllfa yn methu â chyrraedd y safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig gallwn, fel rheoleiddiwr, weithredu mewn sawl ffordd. Gallwn:

- ei gwneud yn ofynnol i berchnogion fferyllfeydd gwblhau cynllun gweithredu gwella
- gosod amodau ar leoliadau fferyllol penodol pan fo hynny'n angenrheidiol i ddiogelu ymarfer fferyllol diogel ac effeithiol
- cyflwyno hysbysiad gwella am fethu â chadw at yr amodau yn ymwneud â'r safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig, neu fethiant i gyrraedd y safonau
- gosod mesurau dros dro ar berchnogion fferyllfeydd – gwneir y penderfyniadau hyn gan y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer
- diarddel perchennog fferyllfa neu ddileu un neu ragor o gofnodion yn y gofrestr os yw'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn penderfynu bod perchennog y fferyllfa yn anaddas i barhau â'r busnes perthnasol yn ddiogel ac yn effeithiol

## Yr hyn rydym yn ei gynnig o ran gorfodaeth

Byddwn yn datblygu polisi gorfodaeth fydd yn egluro sut rydym yn defnyddio ein pwerau gorfodi, a byddwn yn gofyn am farn ar unrhyw ganllawiau ar y broses benderfynu a gyhoeddir yn y dyfodol ar gyfer ein pwyllgorau statudol. Rydym wedi nodi isod rai o'r egwyddorion fydd yn llywio ein dulliau.

Byddwn yn:

- gwneud penderfyniadau ynghylch pryd i ddefnyddio ein pwerau gorfodi yn gymesur ac yn gyson, fel mai dim ond y camau sydd angen eu cymryd i sicrhau bod fferylliaeth yn cyrraedd y safonau ac i ddiogelu cleifion a'r cyhoedd fydd yn cael eu gweithredu
- defnyddio'n pwerau gorfodi ddim ond mewn sefyllfaoedd lle na fydd perchennog fferyllfa yn cwblhau cynllun gweithredu gwella a chyflwyno'r newidiadau sydd eu hangen i gyrraedd ein safonau, neu mewn sefyllfaoedd lle mae risg ddifrifol i ddiogelwch cleifion
- parhau i weithio gydag asiantaethau gorfodi eraill a, phan mai sefydliadau eraill fyddai orau yn rheoli'r pryderon, gyfeirio'r mater atyn nhw
- cyhoeddi gwybodaeth am y camau gorfodi rydym wedi eu gweithredu, pan fo hynny'n briodol a phan ganiateir hynny gan y gyfraith

## Ein gwaith yn y dyfodol

Er mai ffocws yr ymgynghoriad hwn yw arolygiadau a chyhoeddi adroddiadau arolygu, rydym yn ymrwymedig at wneud gwelliannau eraill i'r ffordd rydym yn rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig. Byddwn, yn y dyfodol, yn:

- adolygu ein safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i roi blaenoriaeth i ofal cleifion a darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym yn gwybod bod yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn bwriadu gofyn am farn ar roi pwerau i reoleiddwyr fferylliaeth yn y DU i osod safonau ar gyfer fferyllwyr goruchwyliol. Byddwn yn aros i glywed canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw. Os bydd cefnogaeth i gynigion y llywodraeth, byddwn yn adolygu'r safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig ochr yn ochr â'r safonau ar gyfer fferyllwyr goruchwyliol
- datblygu polisi gorfodi fydd yn esbonio sut y byddwn yn defnyddio'n pwerau gorfodi, ac yn gofyn am farn ar unrhyw ganllawiau ar brosesau penderfynu ar gyfer ein pwyllgorau statudol
- gofyn am farn ar y wybodaeth a gasglwn ynghylch fferyllfeydd cofrestredig – ar adeg cofrestru, wrth adnewyddu ac o ddydd i ddydd – er mwyn gwella'r ffordd y rheoleiddiwn fferyllfeydd cofrestredig
- gofyn am farn ar atodiad newydd i'n polisi cyhoeddi a datgelu. Bydd hwn ar waith ar gyfer gwybodaeth a gyhoeddwn ac y datgelwn am fferyllfeydd cofrestredig, a bydd yn cynnwys am ba hyd y bydd adroddiadau yn aros ar ein gwefan
- cyhoeddi adroddiad ar yr hyn yr ydym wedi ei ddysgu o'n harolygiadau, gan gynnwys rhannu enghreifftiau o arferion nodedig. Bydd hyn yn cynnwys enghreifftiau o arfer dda a rhagorol, yn ogystal ag enghreifftiau o ymarfer sydd islaw'r safon a ddisgwylir. Byddwn hefyd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gyhoeddi adroddiad trosolwg blynyddol
- er mwyn i ni barhau i ddefnyddio'n hadnoddau'n effeithiol, ystyried a ddylem barhau i arolygu pob fferyllfa mewn patrwm cyson. Efallai y gallai model arall, megis arolygu sampl o fferyllfeydd, roi sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd bod ein safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig yn cael eu cyrraedd

### Camau nesaf

Wedi i'r ymgynghoriad gau, byddwn yn dadansoddi'r hyn a glywom drwy'r ymgynghoriad, grwpiau ffocws a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Bydd ein Cyngor yn ystyried yr adborth cyn gwneud penderfyniadau ynghylch ein cynigion.

Byddwn yn cyfathrebu'r penderfyniadau a wneir gan ein Cyngor yn glir. Os bydd ein Cyngor yn cymeradwyo, disgwyliwn ddechrau cyhoeddi adroddiadau arolygu yn gynnar yn 2019.

# Ymateb i'r ymgynghoriad

## Sut y byddwn yn defnyddio'ch ymatebion

Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r hyn a ddywedwyd wrthym.

Os byddwch yn ymateb fel unigolyn preifat, ni fyddwn yn defnyddio'ch enw nac yn cyhoeddi ymatebion unigolion. Os byddwch yn ymateb ar ran sefydliad, byddwn yn rhestru enw'ch sefydliad ac mae'n bosibl y byddwn yn cyhoeddi'ch ymateb yn llawn oni ddywedwch wrthym i beidio. Os ydych am i'ch ymateb fod yn gyfrinachol, dylech egluro pam eich bod yn ei ystyried yn gyfrinachol.

Efallai y bydd angen i ni ddatgelu gwybodaeth dan ddeddfwriaeth mynediad i wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel arfer). Os gofynnwch i ni gadw rhan o'ch ymateb, neu'r ymateb cyfan, yn gyfrinachol, byddwn yn ymdrin â'r cais o ddifri ac yn ceisio'i barchu, ond ni allwn warantu y cedwir cyfrinachedd ymhob achos.

Ni fydd ymwadiad awtomatig sy'n cael ei greu gan eich system TG ynddo'i hun yn cael ei ystyried yn rhwymedigaeth ar y CFfC. Dan y gyfraith diogelu data, gallwch ofyn am gopi o'ch ymateb i'r ymgynghoriad hwn neu wybodaeth arall sydd gennym amdanoch, a gallwch hefyd ofyn i ni ddileu eich ymateb. I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau a gyda phwy i gysylltu, **darllenwch ein polisi preifatrwydd** ar ein gwefan.

## Ymateb i'r ymgynghoriad ar ddatblygu ein dull rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig

Hoffem ofyn am rywfaint o wybodaeth gefndir i gychwyn. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall barn grwpiau, unigolion a sefydliadau gwahanol a'n galluogi i ymateb yn well i'r farn honno.

**Ydych chi'n ymateb:**

- ☐ fel unigolyn – Ewch i adran A
- ☐ ar ran sefydliad – ewch i adran B

## Adran A – Ymateb fel unigolyn

**1. Rhowch eich:**

enw:

e-bost:

**2. Ble rydych chi'n byw?**

☐ Lloegr

☐ Yr Alban

☐ Cymru

☐ Gogledd Iwerddon

☐ Arall (rhowch fanylion)

**3. Ydych chi'n ymateb fel:**

☐ fferyllydd (ewch i **C4**)

☐ technegydd fferyllol (ewch i **C5**)

☐ Perchennog fferyllfa nad yw'n gofrestredig fel fferyllydd na thechnegydd fferyllol (ewch i **C6**)

☐ aelod o'r tîm fferyllol nad yw'n gofrestredig gyda'r CFfC (ewch i **C7**)

☐ aelod o'r cyhoedd (ewch i gwestiynau'r ymgynghoriad)

☐ arall (rhowch fanylion isod ac yna ewch i **C8**)

**4. Ydych chi'n fferyllydd goruchwyliol?**

☐ Ydw

☐ Nac ydw

**5. Ydych chi'n berchennog fferyllfa?**

☐ Ydw

☐ Nac ydw (ewch i **C7**)

**6. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'r fferyllfa rydych chi'n berchen arni orau?**

☐ Unig fasnachwr (ewch i **C8**)

☐ Partneriaeth (ewch i **C8**)

☐ Corff corfforaethol (ewch i **C8**)

**7. Ydych chi'n gweithio mewn fferyllfa gofrestredig?**

☐ Ydw

☐ Nac ydw

**8. Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio orau y maes rydych chi'n gweithio'n bennaf ynddo.**

- ☐ Fferyllfa gymunedol (ewch i **C9**)
- ☐ Fferyllfa ysbyty
- ☐ Sefydliad gofal sylfaenol
- ☐ Hyfforddiant ac addysg fferyllol
- ☐ Diwydiant fferyllol
- ☐ Arall (rhowch fanylion)

**9. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau y fferyllfa gymunedol rydych chi'n berchen arni neu'n gweithio ynddi?**

- ☐ Fferyllfa annibynnol neu gadwyn fferyllol (1-5 fferyllfa)
- ☐ Cadwyn aml-fferyllfa fach (6-20 fferyllfa)
- ☐ Cadwyn aml-fferyllfa fawr (21 neu ragor o fferyllfeydd)

## Adran B – Ymateb ar ran sefydliad

**Rhowch eich:**

enw:

swydd:

sefydliad:

cyfeiriad:

e-bost:

Os ydych am i unrhyw ran o'ch ymateb fod yn gyfrinachol, eglurwch pam eich bod o'r farn bod y wybodaeth a roddoch yn gyfrinachol. Ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd ymhob achos.

☐ Hoffwn i chi gadw rhannau o ymateb ein sefydliad yn gyfrinachol

Nodwch pa rannau yr hoffech eu cadw'n gyfrinachol.

**Ydych chi'n ymateb ar ran fferyllfa gofrestredig?**

☐ Ydw (ewch i **C2**)

☐ Nac ydw (ewch i **C3**)

**2. Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio orau y fferyllfa a gynrychiolwch**

☐ Fferyllfa gymunedol (ewch i **C4**)

☐ Fferyllfa ysbyty (ewch i gwestiynau'r ymgynghoriad)

☐ Sefydliad gofal sylfaenol (ewch i gwestiynau'r ymgynghoriad)

☐ Arall (rhowch fanylion)

**3. Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio'ch sefydliad orau.**

☐ Corff neu sefydliad yn cynrychioli cleifion neu'r cyhoedd

☐ Corff neu sefydliad yn cynrychioli gweithwyr proffesiynol neu'r sector fferyllol

☐ Sefydliad neu grŵp GIG

☐ Sefydliad ymchwil, addysg neu hyfforddiant

- ☐ Adran neu sefydliad llywodraethol
- ☐ Corff Rheoleiddio
- ☐ Arall (rhowch fanylion)

---

**4. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau y fferyllfa gymunedol rydych chi'n berchen arni neu'n gweithio ynddi?**

- ☐ Fferyllfa neu gadwyn fferyllol annibynnol (1-5 fferylfla)
- ☐ Cadwyn aml-fferyllfa fach (6-20 fferyllfa)
- ☐ Cadwyn aml-fferyllfa fawr (21 neu ragor o fferyllfeydd)

# Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae gennym ddiddordeb arbennig yn eich barn ar y pwyntiau canlynol, er ein bod yn croesawu'ch sylwadau ar unrhyw faterion yr hoffech eu codi ynghylch y dull rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig yr ydym yn eu cynnig.

## Adran 1: Cyflwyno mathau newydd o arolygiadau

**Yn adran *Cyflwyno mathau newydd o arolygiadau*, rydym yn disgrifio'r math o newidiadau y gobeithiwn eu gwneud i'r arolygiadau a gynhelir gennym.**

1. Ydych chi'n credu y bydd y tri math o arolygiad (arferol, thematig ac wedi eu harwain gan wybodaeth) yn:
   - rhoi mwy o sicrwydd bod fferyllfeydd yn cyrraedd ein safonau?
     - ☐ Ydw
     - ☐ Nac ydw
     - ☐ Ddim yn gwybod
   - ein galluogi i fod yn fwy ymatebol i risgiau neu newidiadau mewn fferylliaeth neu ofal iechyd?
     - ☐ Ydw
     - ☐ Nac ydw
     - ☐ Ddim yn gwybod
   - helpu i yrru gwelliant drwy nodi a rhannu arfer dda?
     - ☐ Ydw
     - ☐ Nac ydw
     - ☐ Ddim yn gwybod

Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

2. Oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y mathau o arolygiadau?

## Adran 2: Arolygiadau heb rybudd

**Yn yr adran *Arolygiadau heb rybudd*, rydym yn disgrifio ein cynlluniau i symud o arolygiadau gyda rhybudd i rai heb rybudd o flaen llaw fel arfer ar gyfer arolygiadau arferol a rhai wedi eu harwain gan wybodaeth.**

3. Ydych chi'n credu bod symud o arolygiadau gyda rhybudd i rai heb rybudd fel rheol gyffredinol yn rhoi mwy o sicrwydd bod fferyllfeydd yn cyrraedd ein safonau bob dydd?

   ☐ Ydw

   ☐ Nac ydw

   ☐ Ddim yn gwybod

Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

4. Rydym wedi nodi sefyllfaoedd lle gallai fod yn amhosibl cynnal arolygiad heb rybudd. Oes sefyllfaoedd eraill y dylem eu hystyried?

   ☐ Oes

   ☐ Nac oes

   ☐ Ddim yn gwybod

5. Disgrifiwch sefyllfaoedd eraill y dylem eu hystyried.

6. Oes gennych unrhyw sylwadau eraill am reol gyffredinol cynnal arolygiadau heb rybudd?

## Adran 3: Newidiadau i ganlyniadau arolygiadau

**Yn adran *Newidiadau i ganlyniadau arolygiadau* y ddogfen ymgynghori, rydym yn disgrifio'r newidiadau yr ydym am eu cyflwyno i ganlyniadau arolygiadau.**

7. Rydym yn cynnig cael dau ganlyniad cyffredinol posibl mewn arolygiad – 'safonau wedi eu cyrraedd' a 'safonau i gyd heb eu cyrraedd'. Ydych chi'n credu y bydd hyn yn ei gwneud hi'n glir i gleifion, y cyhoedd a pherchnogion fferyllfeydd bod fferyllfa wedi cyrraedd, neu heb gyrraedd, y safonau?

   ☐ Ydw

   ☐ Nac ydw

   ☐ Ddim yn gwybod

Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

8. Rydym yn cynnig cael pedwar canlyniad posibl ar gyfer pob un o'r egwyddorion – 'safonau i gyd heb eu cyrraedd', 'safonau wedi eu cyrraedd', 'arfer dda' ac 'arfer ragorol'. Ydych chi'n credu y bydd hyn yn:

   - rhoi dull mesur perfformiad i berchnogion, eu timau a'r CFC?

     ☐ Ydw

     ☐ Nac ydw

     ☐ Ddim yn gwybod

   - Parhau i yrru gwelliant yn ei flaen?

     ☐ Ydw

     ☐ Nac ydw

     ☐ Ddim yn gwybod

Nodwch sylwadau i egluro'ch ymatebion.

**Mae cleifion wedi dweud wrthym y dylai fferyllfa gyrraedd pob un o'r safonau i allu derbyn y canlyniad 'safonau wedi eu cyrraedd'. Golyga hyn y byddai methu â chyrraedd un safon yn arwain at ganlyniad cyffredinol 'safonau i gyd heb eu cyrraedd'.**

9. Ydych chi'n credu y dylai methu â chyrraedd un safon olygu bod fferyllfa yn derbyn canlyniad cyffredinol 'safonau i gyd heb eu cyrraedd'?

   ☐ Ydw

   ☐ Nac ydw

   ☐ Ddim yn gwybod

Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

**Oes gennych unrhyw sylwadau am eiriad canlyniad cyffredinol arolygiadau, sef 'safonau wedi eu cyrraedd' a 'safonau i gyd heb eu cyrraedd'?**

10. Oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch y newidiadau rydym yn eu cynnig i ganlyniad arolygiad?

## Adran 4: Cyhoeddi

**Yn yr adran *Cyhoeddi* rydym yn disgrifio ein cynlluniau i gyhoeddi adroddiadau arolygu unigol ar gyfer arolygiadau arferol a rhai wedi eu harwain gan wybodaeth ac adroddiad cyfansawdd ar gyfer arolygiadau thematig.**

11. Ydych chi'n credu y dylem gyhoeddi adroddiadau arolygu?

   ☐ Ydw

   ☐ Nac ydw

   ☐ Ddim yn gwybod

Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

12. Ydych chi'n credu y bydd cyhoeddi adroddiadau arolygu yn:

- rhoi mwy o dryloywder ynghylch canlyniad arolygiad?
  - ☐ Ydw
  - ☐ Nac ydw
  - ☐ Ddim yn gwybod
- rhoi sicrwydd clir i ddefnyddwyr gwasanaethau fferyllol bod fferyllfa wedi cyrraedd y safonau?
  - ☐ Ydw
  - ☐ Nac ydw
  - ☐ Ddim yn gwybod
- galluogi'r sector fferylliaeth cyfan i ddefnyddio'r wybodaeth yn yr adroddiadau i wella?
  - ☐ Ydw
  - ☐ Nac ydw
  - ☐ Ddim yn gwybod

Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

13. Oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch fformat a chynnwys yr adroddiadau cryno, manwl a thematig? Mae enghreifftiau o dempledi'r adroddiad newydd ar ein gwefan.

14. Ydych chi'n credu y dylem gyhoeddi cynlluniau gweithredu gwella?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod

Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

15. Ydych chi'n credu y dylai fod disgwyl ar berchnogion fferyllfeydd i arddangos canlyniad eu harolygiad yn y fferyllfa?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod

Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

## Adran 5: Y wefan a'r hyb gwybodaeth

**Yn adran *Y wefan a'r hyb gwybodaeth* y ddogfen ymgynghori rydym yn disgrifio ein cynlluniau i gyhoeddi'r adroddiadau ar wefan ryngweithiol ac i gyflwyno hyb gwybodaeth i ddangos a rhannu enghreifftiau o safonau heb eu cyrraedd ac arfer dda a rhagorol.**

16. Ydych chi'n credu y bydd y wefan ryngweithiol a'r hyb gwybodaeth yn:

- gwneud gwybodaeth yn hawdd ei chyrchu
  - ☐ Ydw
  - ☐ Nac ydw
  - ☐ Ddim yn gwybod
- annog rhannu gwybodaeth o fewn y sector fferylliaeth?
  - ☐ Ydw
  - ☐ Nac ydw
  - ☐ Ddim yn gwybod
- galluogi dysgu gan enghreifftiau o safonau na chafodd eu cyrraedd, ac o arfer dda a rhagorol?
  - ☐ Ydw
  - ☐ Nac ydw
  - ☐ Ddim yn gwybod
- gyrru gwelliannau fferyllol yn eu blaen?
  - ☐ Ydw
  - ☐ Nac ydw
  - ☐ Ddim yn gwybod

Nodwch sylwadau i egluro'ch ymatebion.

## Adran 6: Y broses gyhoeddi

**Yn yr adran *Cyhoeddi adroddiadau arolygu*, rydym yn disgrifio'r broses y byddwn yn ei dilyn wrth sicrhau ansawdd a chyhoeddi adroddiadau arolygu.**

17. Oes gennych unrhyw sylwadau ar y broses gyhoeddi?

## Adran 7: Effaith y cynigion

18. Pa fath o effaith gredwch chi gaiff y cynigion ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol?

- ☐ Effaith gadarnhaol
- ☐ Effaith negyddol
- ☐ Effaith gadarnhaol ac effaith negyddol
- ☐ Dim effaith
- ☐ Ddim yn gwybod

Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

19. Pa fath o effaith gredwch chi gaiff y cynigion ar berchnogion fferyllfeydd cofrestredig?

- ☐ Effaith gadarnhaol
- ☐ Effaith negyddol
- ☐ Effaith gadarnhaol ac effaith negyddol
- ☐ Dim effaith
- ☐ Ddim yn gwybod

Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

20. Pa fath o effaith gredwch chi gaiff y cynigion ar y tîm fferyllol?

- ☐ Effaith gadarnhaol
- ☐ Effaith negyddol
- ☐ Effaith gadarnhaol ac effaith negyddol
- ☐ Dim effaith
- ☐ Ddim yn gwybod

Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

**Rydym am ddeall a allai ein cynigion gamwahaniaethu yn erbyn unrhyw unigolion sy'n rhannu unrhyw rai o nodweddion gwarchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010, neu gael eu rhoi, yn anfwriadol, dan anfantais ganddynt. Y nodweddion yw:**

**Oed**
**Anabledd**
**Ailbennu rhywedd**
**Priodas a phartneriaeth sifil**
**Beichiogrwydd a mamolaeth**
**Hil**
**Crefydd neu gredo**
**Rhyw**
**Tuedd rywiol**

21. Ydych chi'n credu y bydd unrhyw beth yn y cynigion yn cael effaith – gadarnhaol neu negyddol – ar unigolion penodol neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw rai o'r nodweddion a restrir uchod?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod

Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

22. Ydych chi'n credu y bydd effeithiau eraill i'n cynigion nad ydych eisoes wedi eu crybwyll?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod

## Adran 8: Derbyn y newyddion diweddaraf

**Hoffem eich e-bostio i roi'r newyddion diweddaraf i chi ar gynnydd yr ymgynghoriad hwn a gwaith arall gan y CFfC. Dywedwch wrthym isod os hoffech i ni gysylltu â chi yn y dyfodol.**

- ☐ Hoffwn i chi cysylltu â fi gyda'r newyddion diweddaraf am yr ymgynghoriad ar ddatblygu'r dull rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig
- ☐ Hoffwn i chi gysylltu â fi gyda newyddion am ymgynghoriadau eraill y CFfC

Nodwch gyfeiriad e-bost ar gyfer diweddariadau a gohebiaeth oddi wrth y CFfC. Gallwch ddad-danysgrifio o'r rhestr bostio ar unrhyw adeg drwy glicio ar 'ddad-danysgrifio' yn yr e-bost.

# Monitro cydraddoldeb

Mae'r CFfC yn ymrwymedig i hybu cydraddoldeb, ac rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth a bod yn gynhwysol yn y cyfan a wnawn fel rheoleiddiwr proffesiwn iechyd. Rydym yn ymrwymedig i gyflawni'r dyletswyddau cydraddoldeb sydd arnom.

Rydym am sicrhau bod gan bawb gyfle i ymateb i'n hymgynghoriad ar ddatblygu ein dull rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig. Bydd y ffurflen monitro cydraddoldeb hon yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ni i wirio bod hyn yn digwydd.

Nid oes rhaid i chi ei chwblhau, ac ni fydd eich atebion yma'n cael eu cysylltu â'ch ymatebion i'r ymgynghoriad.

## Beth yw eich rhyw?

Ticiwch un blwch

☐ Gwryw

☐ Benyw

☐ Arall

☐ Gwell gennyf beidio â dweud

## Beth yw eich cyfeiriadedd rhyw?

Ticiwch un blwch

☐ Heterorywiol/syth

☐ Menyw hoyw/lesbiad

☐ Dyn hoyw

☐ Deurywiol

☐ Arall

☐ Gwell gennyf beidio â dweud

## Ydych chi'n eich ystyried eich hun yn anabl?

Diffinnir anabledd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 fel "nam corfforol neu feddyliol sydd ag effaith andwyol sylweddol hir dymor ar allu i ymgymryd â gweithgareddau beunyddiol". Ticiwch un blwch.

☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Gwell gennyf beidio â dweud

## Beth yw eich grŵp oedran?

Ticiwch un blwch

☐ 16 – 24 oed

☐ 25 – 34 oed

☐ 35 – 44 oed

☐ 45 – 54 oed

☐ 55 – 64 oed

☐ 65 + oed

☐ Gwell gennyf beidio â dweud

## Beth yw eich grŵp ethnig?

Dewiswch y blwch priodol i ddangos eich cefndir diwylliannol. Ticiwch un blwch.

**Gwyn**

☐ Prydeinig

- [ ] Gwyddelig
- [ ] Sipsi neu deithiwr Gwyddelig
- [ ] Cefndir gwyn arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

**Du neu Brydeinig Du**

- [ ] Du Caribïaidd
- [ ] Du Affricanaidd
- [ ] Cefndir du arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

**Cymysg**

- [ ] Gwyn a du Caribïaidd
- [ ] Gwyn a du Affricanaidd
- [ ] Gwyn ac Asiaidd
- [ ] Cefndir cymysg arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

**Asiaidd neu Brydeinig Asiaidd**

- [ ] Indiaidd
- [ ] Pacistanaidd
- [ ] Bangladeshaidd
- [ ] Asiaidd arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

**Tsieineaidd neu Brydeinig Tsieineaidd**

- [ ] Tsieineaidd neu Brydeinig Tsieineaidd

**Arabaidd**

- [ ] Arabaidd

**Arall**

- [ ] Gwell gennyf beidio â dweud
- [ ] Cefndir grŵp ethnig arall (llenwch y blwch isod)

## Beth yw eich crefydd?

Ticiwch un blwch

- [ ] Bwdhaidd
- [ ] Cristnogol
- [ ] Hindŵaidd
- [ ] Iddewig
- [ ] Mwslimaidd
- [ ] Sikhaidd
- [ ] Dim
- [ ] Arall (rhowch ragor o fanylion yn y blwch isod)
- [ ] Gwell gennyf beidio â dweud

# Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad wedi eu hel at ei gilydd

**Yn adran *Cyflwyno mathau newydd o arolygiadau*, rydym yn disgrifio'r math o newidiadau y gobeithiwn eu gwneud i'r arolygiadau a gynhelir gennym.**

1. Ydych chi'n credu y bydd y tri math o arolygiad (arferol, thematig ac wedi eu harwain gan wybodaeth) yn:

    - rhoi mwy o sicrwydd bod fferyllfeydd yn cyrraedd ein safonau?
    - ein galluogi i fod yn fwy ymatebol i risgiau neu newidiadau mewn fferylliaeth neu ofal iechyd?
    - helpu i yrru gwelliant drwy nodi a rhannu arfer dda?

    Nodwch 'Ydw', 'Nac ydw' neu 'Ddim yn gwybod' yn ymateb i'r cwestiynau hyn.

    Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

2. Oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y mathau o arolygiadau?

**Yn yr adran *Arolygiadau heb rybudd*, rydym yn disgrifio ein cynlluniau i symud o arolygiadau gyda rhybudd i rai heb rybudd o flaen llaw fel arfer ar gyfer arolygiadau arferol a rhai wedi eu harwain gan wybodaeth.**

3. Ydych chi'n credu bod symud o arolygiadau gyda rhybudd i rai heb rybudd fel rheol gyffredinol yn rhoi mwy o sicrwydd bod fferyllfeydd yn cyrraedd ein safonau bob dydd?

    Nodwch 'Ydw', 'Nac ydw' neu 'Ddim yn gwybod'.

    Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

5. Rydym wedi nodi sefyllfaoedd lle gallai fod yn amhosibl cynnal arolygiad heb rybudd. Oes sefyllfaoedd eraill y dylem eu hystyried?

    Nodwch 'Oes', 'Nac oes' neu 'Ddim yn gwybod'.

5. Disgrifiwch y sefyllfaoedd eraill y dylem eu hystyried.

6. Oes gennych unrhyw sylwadau eraill am reol gyffredinol cynnal arolygiadau heb rybudd?

**Yn yr adran *Newidiadau i ganlyniadau arolygiadau* y ddogfen ymgynghori, rydym yn disgrifio'r newidiadau yr ydym am eu cyflwyno i ganlyniadau arolygiadau.**

7. Rydym yn cynnig cael dau ganlyniad cyffredinol posibl mewn arolygiad – 'safonau wedi eu cyrraedd' a 'safonau i gyd heb eu cyrraedd'. Ydych chi'n credu y bydd hyn yn ei gwneud hi'n glir i gleifion, y cyhoedd a pherchnogion fferyllfeydd bod fferyllfa wedi cyrraedd, neu heb gyrraedd, y safonau?

   Nodwch 'Ydw', 'Nac ydw' neu 'Ddim yn gwybod'.

   Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

8. Rydym yn cynnig cael pedwar canlyniad posibl ar gyfer pob un o'r egwyddorion – 'safonau i gyd heb eu cyrraedd', 'safonau wedi eu cyrraedd', 'arfer dda' ac 'arfer ragorol'. Ydych chi'n credu y bydd hyn yn:

   - rhoi dull mesur perfformiad i berchnogion, eu timau a'r CFC?
   - Parhau i yrru gwelliant yn ei flaen?

   Nodwch 'Ydw', 'Nac ydw' neu 'Ddim yn gwybod'.

   Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

**Mae cleifion wedi dweud wrthym y dylai fferyllfa gyrraedd pob un o'r safonau i allu derbyn y canlyniad 'safonau wedi eu cyrraedd'. Golyga hyn y byddai methu â chyrraedd un safon yn arwain at ganlyniad cyffredinol 'safonau i gyd heb eu cyrraedd'.**

9. Ydych chi'n credu y dylai methu â chyrraedd un safon olygu bod fferyllfa yn derbyn canlyniad cyffredinol 'safonau i gyd heb eu cyrraedd'?

   Nodwch 'Ydw', 'Nac ydw' neu 'Ddim yn gwybod'.

   Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

10. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ynghylch y newidiadau rydym yn eu cynnig i ganlyniadau arolygiadau?

**Yn yr adran *Cyhoeddi* rydym yn disgrifio ein cynlluniau i gyhoeddi adroddiadau arolygu unigol ar gyfer arolygiadau arferol a rhai wedi eu harwain gan wybodaeth ac adroddiad cyfansawdd ar gyfer arolygiadau thematig.**

11. Ydych chi'n credu y dylem gyhoeddi adroddiadau arolygu?

    Nodwch 'Ydw', 'Nac ydw' neu 'Ddim yn gwybod'.

    Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

12. Ydych chi'n credu y bydd cyhoeddi adroddiadau arolygu yn:

    - rhoi mwy o dryloywder ynghylch canlyniad arolygiad?
    - rhoi sicrwydd clir i ddefnyddwyr gwasanaethau fferyllol bod fferyllfa wedi cyrraedd y safonau?
    - galluogi'r sector fferylliaeth cyfan i ddefnyddio'r wybodaeth yn yr adroddiadau i wella?

    Nodwch 'Ydw', 'Nac ydw' neu 'Ddim yn gwybod'.

    Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

13. Oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch fformat a chynnwys yr adroddiadau cryno, manwl a thematig? Mae enghreifftiau o templedi'r adroddiadau newydd ar ein gwefan.

14. Ydych chi'n credu y dylem gyhoeddi cynlluniau gweithredu gwella?

    Nodwch 'Ydw', 'Nac ydw' neu 'Ddim yn gwybod'.

    Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

15. Ydych chi'n credu y dylai fod disgwyl ar berchnogion fferyllfeydd i arddangos canlyniad eu harolygiad yn y fferyllfa?

    Nodwch 'Ydw', 'Nac ydw' neu 'Ddim yn gwybod'.

    Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

**Yn adran *Y wefan a'r hyb gwybodaeth* y ddogfen ymgynghori rydym yn disgrifio ein cynlluniau i gyhoeddi'r adroddiadau ar wefan ryngweithiol ac i gyflwyno hyb gwybodaeth i ddangos a rhannu enghreifftiau o safonau heb eu cyrraedd ac arfer dda a rhagorol.**

16. Ydych chi'n credu y bydd y wefan ryngweithiol a'r hyb gwybodaeth yn:

    - gwneud gwybodaeth yn hawdd ei chyrchu?
    - annog rhannu gwybodaeth o fewn y sector fferylliaeth?
    - galluogi dysgu gan enghreifftiau o safonau na chafodd eu cyrraedd, ac o arfer dda a rhagorol?
    - gyrru gwelliannau fferyllol yn eu blaen?

    Nodwch 'Ydw', 'Nac ydw' neu 'Ddim yn gwybod'.

    Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

**Yn yr adran *Cyhoeddi adroddiadau arolygu*, rydym yn disgrifio'r broses y byddwn yn ei dilyn wrth sicrhau ansawdd a chyhoeddi adroddiadau arolygu.**

17. Oes gennych unrhyw sylwadau ar y broses gyhoeddi?

    Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

## Cwestiynau cyffredinol am y cynigion hyn

18. Pa fath o effaith gredwch chi gaiff y cynigion ar berchnogion fferyllfeydd cofrestredig?

    Nodwch 'effaith gadarnhaol, 'effaith negyddol, 'effaith gadarnhaol ac effaith negyddol' neu 'ddim yn gwybod'.

    Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

19. Pa fath o effaith gredwch chi gaiff y cynigion ar y tîm fferyllol?

    Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

**Rydym am ddeall a allai ein cynigion gamwahaniaethu yn erbyn unrhyw unigolion sy'n rhannu unrhyw rai o nodweddion gwarchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010, neu gael eu rhoi, yn anfwriadol, dan anfantais ganddynt. Y nodweddion yw:**

**Oed**
**Anabledd**
**Ailbennu rhywedd**
**Priodas a phartneriaeth sifil**
**Beichiogrwydd a mamolaeth**
**Hil**
**Crefydd neu gredo**
**Rhyw**
**Tuedd rywiol**

20. Ydych chi'n credu y bydd unrhyw beth yn y cynigion yn cael effaith – gadarnhaol neu negyddol – ar unigolion penodol neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw rai o'r nodweddion a restrir uchod?

    Nodwch 'effaith gadarnhaol, 'effaith negyddol, 'effaith gadarnhaol ac effaith negyddol' neu 'ddim yn gwybod'.

    Nodwch sylwadau i egluro'ch ymateb.

21. Ydych chi'n credu y bydd unrhyw effaith arall i'n cynigion nad ydych eisoes wedi eu crybwyll?

Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ
F 020 3713 8000
E info@pharmacyregulation.org

@TheGPhC
TheGPhC
/company/general-pharmaceutical-council
www.pharmacyregulation.org